Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 11eg Ionawr 2016 am 7.00 o'r gloch,.

Presennol: Is Gadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Eleri Puw, Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Gadeirydd Robert Jones, Y Clerc wedi cael galwad gan Ken Markham, ere i fod yn hoff o fod yn Gynghorwr nid oedd yn gweld ei ffordd yn glir i ddod i gyfarfodydd, felly penderfynnu sefyll lawr.

Datgan Diddordeb: Neb

Croeshawyd pawb gan yi Is Cadeirydd

Derbyniwyd cofnodion Rhagfyr a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1. Cae Chwarae: Pasiwyd i gael prisiau paentio yr offer i gyd, enwyd rhai ychwanegol, adroddodd Cyng. Lawton y buasai yn trefnu matiau i'r see saw.
2. Mynwent : Dim yw adrodd
3. Llwybrau: Pasiwyd i ddiolch I'r adran briffyrdd am lanhau y ffos ger Rhiw Gwaith
4. Adroddiad Cyng. Gwynedd: Derbyniwyd ymateb ynglyn a damprwydd yn Ysgol Craig y Deryn. Bydd yr adeilad yn cael sylw. Codwyd pryder bod Mr Redman yn gadael y Tafarn ar ol blynyddoedd, tybed a ddaw rhywun i lenwi y bwlch. Pasiwyd I ddanfon gair o ddiolch iddo am ei gefnogaeth i'r pentref a'r ardal.
5. Ciosg: Nodwyd bod Minffordd yn iawn ond nid Llanfihangel na Tynycornel.
6. Parc Eryri: Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar lein / atebion erbyn 5 o'r gloch 12fed o Chwefror 2016 .
7. Arwydd electroneg yn gweithio yn aml ar hyn o bryd.
8. Praescept 2016 – 17: Yr oedd y Clerc wedi paratoi mantolen gwariant 2015- 16 ac hefyd adroddiad beth oedd o'n blaenau. Trafodwyd yn drwyadl y costau i ddod a phasiwyd yn unfrydol ei godi i £5755.00, rhaid bod yn barod pe bai toriadau Gwynedd yn rhoi pwysau arnom. Rhaid oedd cofio ein bod yn gyfrifol am ddwy fynwent a cae chwarae yn barod.
9. Apêl am arian: Derbyniwyd pedwar cais ac ar ole u trafod pasiwyd i roi rhodd i ddau.
10. Llanast uwchben Hendre Abergynolwyn; Mi oedd hyn yn codi ei ben eto a diolch i Cyng. Thompson am luniau pasiwyd y cwyn ymlaen i Parc Eryri.
11. Taliadau:

Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned	rhodd	£50.00	siec 854
2016 International Sheepdog	rhodd	50.00	855

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:

Dim wedi medru ail agor cyfrif Mari Jones.

Mae Ken Markham wedi gwirfoddoli edrych ar ol Cartref Mari Jones

Cyfarfod Nesaf 8fed Chwefror 2015 am 7 o'r gloch